


Protocol ar gyfer adolygiad Ofcom o gŵynion Cam 2 y BBC

Dyddiad cyhoeddi: 2 Gorffennaf 2026



Cynnwys

1. Pwerau newydd Ofcom i adolygu cwynion Uned Cwynion Gweithredol (ECU) y BBC3
2. Dull Ofcom i adolygu cwynion Cam 2 y BBC.....5

1. Pwerau newydd Ofcom i adolygu cwynion Uned Cwynion Gweithredol (ECU) y BBC

- 1.1 Mae Ofcom yn gosod safonau ar gyfer cynnwys ar wasanaethau teledu, radio ac ar-alw'r BBC. Rydym yn gwneud hyn trwy'r [Cod Darlledu](#), sy'n berthnasol i bob darlledwr trwyddedig. Mae'r Cod yn cynnwys rheolau i sicrhau safonau i gynulleidfaoedd ar gywirdeb dyladwy mewn newyddion, deunydd niweidiol neu sarhaus a didueddrwydd dyledus. Mae rôl reoleiddiol Ofcom wedi'i nodi yn [Siarter a Chytundeb y BBC](#). Mae'n berthnasol i wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU ond nid i gynnwys arall y BBC, fel rhaglenni ar BBC World Service.
- 1.2 Ar wahân, yn ddiweddar mae rôl Ofcom o ran rheoleiddio deunydd ar-lein y BBC wedi'i ymestynr. Rydym yn ymgynghori ar God Deunydd Ar-lein arfaethedig y BBC a fydd yn gosod safonau cyfatebol ar gyfer allbwn ar-lein y BBC ac yn dwyn y BBC i gyfrif yn y maes hwn.
- 1.3 Mae gan y BBC ei [Ganllawiau Golygyddol](#) ei hun, sy'n cynnwys gofynion y Cod Darlledu ond sy'n ymestyn ymhellach mewn rhai meysydd o bolisi golygyddol y BBC.
- 1.4 O dan Siarter a Chytundeb y BBC, rhaid gwneud cwynion am raglenni teledu, radio ac ar-alw'r BBC i'r BBC yn gyntaf cyn y gellir eu huwchgyfeirio i Ofcom. Gelwir hyn yn system "BBC yn Gyntaf". Ar ôl cwblhau proses gwyno'r BBC a derbyn ymateb terfynol gan yr Uned Cwynion Gweithredol (ECU¹), os yw achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon, gallant gyflwyno'u cwyn i Ofcom. Felly, ar hyn o bryd dim ond goruchwyliaeth reoleiddiol sydd gan Ofcom ar hyn o bryd o gwynion sy'n cael eu cyflwyno'n uniongyrchol atom gan achwynwyr.
- 1.5 Yn 2024 cynhaliodd yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) [Adolygiad Canol Tymor](#) (MTR) o Siarter cyfredol y BBC "i werthuso effeithiolrwydd llywodraethu a rheoleiddio'r BBC". Gwnaeth yr MTR nifer o argymhellion ar gyfer newidiadau i'w gwneud gan y BBC ac Ofcom "i sicrhau bod y [BBC] yn cyflawni ar gyfer talwyr ffi'r drwydded".
- 1.6 Yn benodol, nododd yr MTR ei fod wedi "archwilio sut i ddarparu craffu allanol mwy a mwy cadarn ar y ffordd y mae ECU yn ymdrin â chwynion mewn ffyrdd a fydd yn creu mwy o hyder ymhlith cynulleidfaoedd".² Aeth ymlaen i wneud Argymhelliad 3.5, sy'n nodi:

"Rydym yn argymhell bod Ofcom yn cynnal adolygiadau rheolaidd o sampl gynrychioliadol o benderfyniadau cwynion yr Uned Cwynion Gweithredol (ECU) ac yn cyhoeddi crynodeb o'i ganfyddiadau. Bydd y swyddogaeth reoleiddio newydd hon yn ofyniad ffurfiol trwy welliant i'r Cytundeb Fframwaith."

¹ Mae'r ECU yn cyhoeddi ymatebion yn "Cam 2" o broses gwynion y BBC.

² [Adolygiad Canol Tymor y BBC 2024 - GOV.UK](#), paragraff 155

- 1.7 Ym mis Rhagfyr 2025, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r BBC ddiwygiadau i Gytundeb y BBC 2016, er mwyn adlewyrchu canlyniadau'r MTR.³ Mae'r Cytundeb Fframwaith diwygiedig bellach yn rhoi'r pŵer i Ofcom gynnal yr adolygiad hwn gyda'r diwygiad canlynol:

Yng nghymal 57 o Gytundeb Diwygiedig 2016, ar ôl paragraff (4) mewnosoder:

"(5) Rhaid i Ofcom adolygu sampl gynrychioliadol o'r holl gŵynion perthnasol sydd:

(a) wedi'i datrys gan y BBC o dan y gweithdrefnau a sefydlwyd o dan gymal 56(2) a (4); a

(b) heb eu cyfeirio at Ofcom o dan gymal 57(1), ac yn adrodd yn flynyddol ar ganlyniad eu hadolygiad. Bydd adolygiad Ofcom yn ystyried y cwynion perthnasol yn erbyn a yw'r BBC wedi cadw at y safonau cynnwys y cyfeirir atynt ym mharagraffau 3(1) a (2) a'r safonau a osodir o dan baragraff 3A(2) o Atodlen 3."

- 1.8 Mae'r gwelliant hwn yn rhoi goruchwyliaeth i Ofcom o'r holl gŵynion o fewn ei gylch gwaith, ar ôl iddynt gwblhau cam olaf proses gŵynion y BBC. Felly, bydd Ofcom yn dechrau adolygu sampl gynrychioliadol o'r cwynion hynny nad ydynt wedi'u cyfeirio at Ofcom.
- 1.9 Mae'r Protocol hwn yn nodi sut rydym yn bwriadu cynnal yr adolygiad hwn, gan gynnwys: ein dull o ddewis samplau; sut y bydd Ofcom yn mynd i'r afael ag asesiadau sy'n amodol ar ei adolygiad; y camau nesaf pan fydd Ofcom yn nodi unrhyw broblemau gyda'r cynnwys; a sut y bydd Ofcom yn adrodd canfyddiadau bob blwyddyn.

³ CP 1460 – Diweddariadau i Gytundeb Fframwaith y BBC

2. Dull Ofcom i adolygu cwynion Cam 2 y BBC

- 1.10 Bydd Ofcom yn adolygu sampl gynrychioliadol o gŵynion a gafodd eu trin gan ECU y BBC yn ymdrin â nhw yng Ngham 2 o'i broses gwyno nad ydynt wedi'u hanfon gan achwynwyr at Ofcom. Cynhelir ein hadolygiad bob chwarter a byddwn yn crynhoi ein canfyddiadau yn ein Hadroddiad Blyneddol ar y BBC.
- 1.11 Byddwn yn dechrau trwy adolygu 25% o gŵynion o'r fath yn y flwyddyn gyntaf a byddwn yn cadw'r ffigur hwn dan adolygiad. Bydd yr adolygiad yn ymdrin â chwynion am gynnwys darlledu ac ar-alw'r BBC ond ni fydd yn cynnwys cwynion am ei ddeunydd ar-lein i ddechrau. Fodd bynnag, unwaith y bydd Cod Deunydd Ar-lein y BBC Ofcom yn cael ei weithredu (a ragwelir yn ddiweddarach yn 2026), bydd ein hadolygiad hefyd yn cynnwys cwynion deunydd ar-lein y BBC.
- 1.12 Bydd y BBC yn darparu gwybodaeth yn uniongyrchol i Ofcom yn rheolaidd am y cwynion y mae wedi cyhoeddi ymateb terfynol iddynt. Bydd Ofcom yn defnyddio'r wybodaeth hon i ffurfio ein fframwaith samplu ac yna'n dewis cwynion ar hap i'w hadolygu gan ddefnyddio meddalwedd ar hap. Bydd Ofcom yn sicrhau y bydd y cwynion rydym yn eu hasesu yn cwmpasu ystod o bynciau ar draws gwahanol feysydd ein Cod Darlledu. Byddwn yn sicrhau bod ein sampl yn adlewyrchu'n gymesur y mathau o gŵynion a ystyrir fel arfer gan ECU y BBC yng Ngham 2.
- 1.13 Nid yw Ofcom fel arfer yn gohebu ag achwynwyr ac ni fyddwn yn gwneud hynny'n rheolaidd ar gyfer cwynion a adolygir yn unol â'r Protocol hwn. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn cysylltu ag achwynwyr unigol (drwy'r ECU) pan fo unrhyw asesiad yn haeddu cyswllt o'r fath.
- 1.14 Nid yw Ofcom yn ymyrryd yn y ffordd y mae'r BBC yn ymdrin â chwynion unigol a bydd ein hadolygiad yn canolbwyntio ar ymateb terfynol sylweddol y BBC i'r gŵyn, yn hytrach nag ar sut mae'r BBC wedi ymdrin â'r gŵyn unigol. Fel y nodir yn Siarter a Chytundeb y BBC, mae gan Ofcom ddyletswydd i ystyried dull cyffredinol y BBC o ymdrin â chwynion. Felly, efallai y byddwn yn ystyried unrhyw faterion systemig sy'n ymdrin â chwynion a amlygwyd yn ein hadolygiad fel rhan o unrhyw ystyriaeth yn y dyfodol o ddull cyffredinol y BBC yn y maes hwn.
- 1.15 Yn unol â pharagraff 1.30 o'n [Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw y BBC](#), bydd Ofcom yn ystyried yn gyntaf a yw cwyn, ar yr olwg gyntaf, yn codi materion a allai fod yn sylweddol o dan y Cod Darlledu sy'n haeddu ymchwiliad gan Ofcom. Byddwn yn gwneud hynny drwy gyfeirio at ddifrifoldeb a/neu raddfa'r mater y cwynir amdano, gan gynnwys, er enghraifft: a yw'n ymwneud â niwed i blant dan oed neu niwed ariannol neu gorfforol difrifol; ac a yw Ofcom o'r farn bod y BBC wedi dod i benderfyniad priodol ar y mater. Os oes gan Ofcom unrhyw bryderon y bydd cwyn a adolygir yn unol â'r Protocol hwn o bosibl yn codi materion sylweddol sy'n gwarantu ymchwiliad o dan ein Cod Darlledu, byddwn yn lansio ymchwiliad

ac yn ei gynnal yn unol â'n Gweithdrefnau presennol.⁴ Byddwn yn cyhoeddi agor unrhyw ymchwiliadau a lansiwyd o ganlyniad i'r adolygiad hwn, yn ogystal â'u canlyniadau, yn barhaus yn ein Bwletin Darlledu ac Ar-alw a/neu yn ein Bwletin Deunydd Ar-lein y BBC. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad yn flynyddol ar gyfer blwyddyn reoleiddio benodol yn Adroddiad Blynnyddol Ofcom [ar y BBC](#), a fydd yn egluro sut rydym wedi cyflawni ein dyletswydd i adolygu'r cwynion hyn.

- 1.16 Bydd y cwynion canlynol yn cael eu heithrio o'n hadolygiad o dan y Protocol hwn:
- a) Cwynion Tegwch a Phreifatrwydd (cwynion gan unigolion sy'n ymddangos mewn rhaglenni a/neu yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan raglenni – mae hyn oherwydd nad oes angen i'r cwynion hyn ddilyn proses BBC yn Gyntaf a gallant ddod yn syth at Ofcom);
- 1.17 Cwynion BBC World Service (nid oes gan Ofcom gylch gwaith rheoleiddiol ar gwynion o'r fath);
- a) cwynion sydd eisoes wedi'u cyfeirio at Ofcom gan yr achwynydd.

⁴ Paragraffau 1.35 – 1.37.